**LC595**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn diwygio Atodlen 3 y prif reoliadau sy'n rhestru swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r bwrdd awdurdod lleol yn unig.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ymddengys bod dau wall drafftio a gwahoddir y Cynulliad i roi sylw iddynt.

1. Yn y dyfyniad o'r pwerau, ymddengys mai camgymeriad oedd cynnwys adran 13 oherwydd darpariaeth ydyw sy'n berthnasol yn unig i reoliadau sy'n ymwneud â gweithrediaeth awdurdodau lleol, ac nid yw'n rhoi unrhyw bwer mewn perthynas â'r rheoliadau dan ystyriaeth. Mae'n bosib mai'r bwriad oedd cyfeirio at adran 31 sy'n un o'r pwerau galluogi a ddyfynnir yn y prif reoliadau.
2. Yn rheoliad 1(1) dylai "Gorchymyn" fod yn "Rheoliadau".

Mae Pwynt 1 yn berthnasol i'r testun Cymraeg hefyd, ond mae pwynt 2 yn berthnasol i'r testun Saesneg yn unig.

Gellid cywiro'r mân gamgymeriadau hyn drwy femorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

Yn llinell 1 o rheoliad 2, "Atodlen 3 i..." fyddai'r ffurf arferol.

Yn llinell 3 o reoliad 2, dylai "are" fod yn "is". [D.S. nid yw hyn yn effeithio ar y Gymraeg]

Ym mharagraff (a) o reoliad 2 mae'r ffaith bod penawdau'r colofnau wedi'u cynnwys yn rhoi'r argraff bod penawdau'r golofn yn rhan o'r testun a fewnosodwyd (rhagdybir nad dyma'r effaith arfaethedig).

Ym mharagraffau (b) a (c) dylai "diddymu" fod yn "dirymu", yn unol ag arfer cyffredin.

Gellid cywiro'r camgymeriadau hyn drwy femorandwm cywiriadau pe dymunir hynny.  Mae pwyntiau cyfatebol i'w gweld yn y testun Cymraeg o ran paragraff (b) a (c) o reoliad 2.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

14 Ionawr 2003